

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Senedd.Climate@senedd.wales

14 Tachwedd 2022

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Medi 2022 yn amgáu copi o adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith: *Adroddiad ar weithrediad y mesurau interim diogelu'r amgylchedd.*

Rydym yn ddiolchgar am waith y Pwyllgor ar y mater pwysig hwn. Rwy'n cydnabod yr argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor, ac yn amgáu ymateb manwl i'r rhain, gan dderbyn pob un o'r 8 argymhelliad.

Yn gywir

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad 1.

Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith dan y teitl Adroddiad ar weithrediad y mesurau interim diogelu'r amgylchedd.

Argymhelliad 1.

Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n bwriadu ailbenodi'r Asesydd Interim am flwyddyn arall, sef tan fis Chwefror 2024. Os felly, rhaid iddi egluro'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod corff goruchwylio statudol newydd yn weithredol cyn diwedd yr ailbenodiad.

Ymateb: Derbyn

Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailbenodi'r Asesydd Interim am flwyddyn arall er mwyn sicrhau bod gwasanaeth IEPAW yn parhau i fod yn weithredol tan fis Chwefror 2024.

Fel y cadarnhaodd y Prif Weinidog yn ei lythyr at y Pwyllgor dyddiedig 18 Gorffennaf 2022, mae gweithio tuag at sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol yn rhan o'n Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Plaid Cymru, ac rydym wedi ymrwmo i gyflwyno deddfwriaeth ar y mater pwysig hwn yn ystod tymor y Senedd hwn. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gyngor pellach i'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar sefydlu corff parhaol.

Ni allaf gyngori'r Pwyllgor ar hyn o bryd ar yr amserlenni ar gyfer sefydlu corff goruchwylio amgylcheddol parhaol, ond byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor gyda diweddariad ar y mater hwn cyn gynted ag y byddaf mewn sefyllfa i wneud hynny.

Goblygiadau Ariannol –

Argymhelliad 2.

Dylai'r Asesydd Interim weithio tuag at wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaeth. Fel isafswm, dylent:

- nodi ffyrdd o'i gwneud yn haws i'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth drwy'r wefan, ac
- ymgysylltu â gwasanaethau cyngor am ddim perthnasol yng Nghymru fel ffordd o ddatblygu llwybrau atgyfeirio i'r broses gwyno.

Argymhelliad 3. Dylai'r Asesydd Interim ymrwmo i gyhoeddi manylion ei rhaglen waith dreigl ar y wefan. Dylid diweddarw'r wybodaeth hon yn rheolaidd.

Ymateb: Derbyn

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cysylltu gyda'r Asesydd Interim ynghylch argymhellion 2 a 3 o'r adroddiad ac mae wedi dweud ei bod yn bwriadu gweithredu'r ddau argymhelliad yn llawn. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gefnogaeth y mae angen i gyflawni'r gwelliannau hyn i'r Asesydd Dros Dro, yn enwedig drwy gymryd camau i sicrhau bod tudalennau gwe IEPAW yn haws eu gweld a'i bod yn gallu gwneud defnydd o'r sianeli

cyfryngau cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i waith yr IEPAW. Bydd yr Asesydd Interim yn ysgrifennu at y Pwyllgor ar wahân ar gynnydd yr argymhellion hyn.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y galw ar y gwasanaeth a phennu'r gofynion cyfatebol o ran adnoddau, a hynny o ran nifer y dyddiau y caiff yr Asesydd Interim ei chontractio i weithio a'r cymorth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y rôl.

Ymateb: Derbyn

Roedd amcangyfrifon cychwynnol ar gyfer y galw am y gwasanaeth yn seiliedig ar wybodaeth gan randdeiliaid oedd â diddordeb, gan gynnwys rheoleiddwyr megis Cyfoeth Naturiol Cymru ac ystyried llwyth gwaith y Comisiwn Ewropeaidd. Gall gynnwys y posibilrwydd y gallai system ddomestig fod yn fwy gweladwy a hygyrch, gan ddenu mwy o gwynion. Roedd yn anodd iawn rhagweld y llwyth achos, ond roedd yr amcangyfrifon cychwynnol y byddai 15-25 o gyflwyniadau yn cael eu derbyn bob blwyddyn, gan arwain at 4 – 6 ymchwiliad a 1-2 achos yn symud ymlaen i fesurau gorfodi.

Mae'n bwysig nodi bod yr amcangyfrifon hyn wedi'u creu gyda chorff llywodraethu amgylcheddol parhaol mewn golwg, gyda'r gallu i ystyried cwynion am ddiffyg cydymffurfio honedig â'r gyfraith. O'r herwydd, roeddem yn disgwyl cylch gwaith mwy cyfyngedig yr Asesydd Interim i arwain at dderbyn llawer llai o achosion. Nid oedd modd cynhyrchu ffigur cywir ar beth fyddai'r llwyth gwaith ar gyfer y trefniadau dros dro.

Cafodd asesiad y Llywodraeth ei gadarnhau i ddechrau gan y llwyth gwaith a dderbyniwyd gan yr IEPAW yn ystod y chwe mis cychwynnol. Yn ystod 8 mis cyntaf ei weithredu, dim ond pum cyflwyniad a dderbyniwyd. Fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol yr Asesydd Dros Dro, roedd cynnydd annisgwyl yn nifer y cyflwyniadau a dderbyniwyd yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr 2021 (15 achos) a gymerodd y ffigur cyffredinol i'r ystod y byddem wedi'i ddisgwyl ar gyfer corff gyda chylch gwaith llawer ehangach.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad brys o'r adnoddau sydd ar gael i'r Asesydd Interim. Wrth wneud hynny, rhaid iddi fodloni ei hun bod gan yr Asesydd Interim ddigon o adnoddau i gyflawni ei rôl a'i chyfrifoldebau'n effeithiol. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr adolygiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y pwysau y mae'r Asesydd Interim wedi'i wynebu, yn enwedig yn sgil y galw mawr am y gwasanaeth dros y 18 mis diwethaf, a'r goblygiadau fydd hyn wedi'u cael ar yr adnoddau fydd ar gael iddi. Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor bod angen ystyried ymhellach ddarparu adnoddau i'r IEPAW i sicrhau y gall gyflawni ei swyddogaethau arfaethedig yn effeithiol nes bod trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol ar waith.

O'r herwydd, bydd y Llywodraeth yn ymrwmo i gynnal adolygiad mewnol o'r adnoddau ar gael i'r Asesydd Interim. Unwaith y bydd yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau, byddwn yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor am ganfyddiadau'r adolygiad hwn cyn gynted â phosibl.

Yn y cyfamser, mae Tîm Ysgrifenyddiaeth IEPAW wedi bod yn gweithio i sicrhau adnodd ychwanegol i'r Asesydd Interim. Mae hyn wedi cynnwys comisiynu cefnogaeth allanol gan academyddion a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol wrth gynhyrchu adroddiadau IEPAW. Dylai hyn arwain at lai o ofynion ar amser yr Asesydd Interim, a fydd yn sicrhau bod yr IEPAW yn gallu cwblhau adroddiadau yn gynt yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi ei hymatebion i adroddiadau'r Asesydd Interim ymhen chwe wythnos o'u cael fan bellaf. Dylai'r ymatebion nodi pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r cyngor a/neu'r argymhellion, gan gynnwys amserlenni dangosol ar gyfer cyflawni. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dewis peidio â gweithredu, dylai nodi ei rhesymau.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i hysbysu'r Senedd pan fydd yn cyhoeddi ymateb i adroddiad gan yr Asesydd Interim. Dylai hyn fod ar ffurf datganiad ysgrifenedig.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y ddau argymhelliad hwn yn llawn.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau sydd ar waith i fonitro effeithiolrwydd parhaus y mesurau interim ac effaith y mesurau ar ganlyniadau amgylcheddol.

Ymateb: Derbyn

Nid oes trefniadau monitro ffurfiol ar waith ar hyn o bryd, er bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ystyried opsiynau o ran gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau dros dro a'u heffaith ar ganlyniadau amgylcheddol. Wrth wneud hynny, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gellid defnyddio proses werthuso o'r fath i lywio dyluniad a datblygiad corff llywodraethu amgylcheddol parhaol i Gymru.